

Diwygio Rheolau Sefydlog: Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Tachwedd 2021

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell diwygiadau i Reol Sefydlog 22 mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.



Cynnwys

1. Cefndir.....	3
2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes.....	3
3. Penderfyniad	4
Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 22 a nodiadau esboniadol	5
Atodiad B - Rheol Sefydlog 22, fel y'i diwygiwyd	7

1. Cefndir

- 1.** Mae Rheolau Sefydlog 22.3-22.5 yn ymwneud ag aelodaeth y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Yn y Chwchedd Senedd, y pwyllgor cyfrifol yw'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor').
- 2.** Mae Rheolau Sefydlog 22.4 a 22.5 yn gwahardd dirprwyon rhag cymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir, sef os bydd aelod o'r pwyllgor yn destun cwyn neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn. O dan yr amgylchiadau hynny, mae Rheol Sefydlog 22.5 yn galluogi eilydd o'r un grŵp gwleidyddol (a etholwyd o dan Reol Sefydlog 22.4A) i fod yn bresennol at ddiben ystyried y gŵyn yn unig.
- 3.** Yn ogystal ag ystyried cwynion, mae gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyfrifoldebau hefyd mewn perthynas â rheoleiddio safonau ymddygiad Aelodau yn y Senedd. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Pwyllgor Busnes ar 15 Hydref 2021 yn nodi, gan fod un o'i aelodau'n absennol oherwydd salwch, ei fod wedi penderfynu gohirio ei waith presennol i adolygu gweithdrefn gwynion yr Aelodau gan ei fod o'r farn na ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw oni bai fod cynrychiolaeth drawsbleidiol.
- 4.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio i ganiatáu i ddirprwyon gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan fo'n ystyried gwaith polisi ehangach, ar y sail y bydd llai o risg iddo arwain at ganfyddiadau o ragfarn neu ymyrraeth o'i gymharu â'r gwaith o ystyried cwynion.

2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

- 5.** Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y mater yn ei gyfarfodydd ar 19 Hydref a 9 Tachwedd 2021, a phenderfynodd gynnig dau newid i'r Rheolau Sefydlog.
- 6.** Amlinellir y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn Atodiad A. Byddai'r newidiadau'n gwneud fel a ganlyn:
 - a. galluogi unrhyw Aelod o'r un grŵp gwleidyddol i fod yn ddirprwy (o dan Reol Sefydlog 17.48) yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 22 pan fo'n gwneud gwaith nad yw'n cynnwys ystyried cwynion o dan Reol Sefydlog 22.2(i); a

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

- b. galluogi eilydd o'r un grŵp gwleidyddol i gymryd lle aelod o'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 22 i ystyried cwynion o dan Reol Sefydlog 22.2(i) os nad oes modd i'r aelod hwnnw weithredu.

7. Diben y newidiadau hyn yw osgoi oedi wrth ystyried cwynion a gwaith ehangach y pwyllgor cyfrifol a achosir pan fydd aelod yn absennol yn annisgwyl.

3. Penderfyniad

8. Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 9 Tachwedd 2021. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 22 a nodiadau esboniadol

RHEOL SEFYDLOG 22 – Safonau Ymddygiad		
Aelodaeth	Cadw'r pennawd	
22.3	Rhaid i'r Llywydd beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor cyfrifol, ond mae gan y Llywydd hawl i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw ystyriaethau y mae'r Llywydd yn credu eu bod yn briodol.	Cadw'r Rheol Sefydlog
22.4	<u>Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 22.5, Ni chaniateir i Reol Sefydlog 17.48 fod yn gymwys i'r pwyllgor cyfrifol pan fo'n ystyried materion o dan Reol Sefydlog 22.2(i).</u>	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r diwygiad yn caniatáu i aelodau o'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 22 gael eu cynrychioli gan aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, ac eithrio pan fo'r pwyllgor yn ystyried cwynion a gyfeirir ato o dan Reol Sefydlog 22.2(i).
22.4A	Rhaid i'r Senedd ethol eilydd o'r un grŵp gwleidyddol ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 22.5.	Cadw'r Rheol Sefydlog
22.5	Os bydd aelod o'r pwyllgor cyfrifol yn destun cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2(i) neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn o'r fath, ni chaiff gymryd rhan yn ystyriaeth y pwyllgor cyfrifol ar y gŵyn. O dan amgylchiadau o'r fath, <u>neu os bydd aelod o'r pwyllgor yn methu â gweithredu fel arall ac mewn perthynas â'r</u>	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r diwygiad yn galluogi eilydd i fynd i gyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried cwynion pan fo aelod o'r pwyllgor yn methu â gweithredu, er enghraifft oherwydd salwch.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

	<p>ystyriaeth ar y gŵyn o dan sylw yn unig, caiff yr eilydd a etholwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.4A gymryd lle'r aelod hwnnw at ddiben ystyried cwyn. Caiff yr eilydd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried y gŵyn fel pe bai'n aelod o'r Pwyllgor.</p>	
--	---	--

Atodiad B – Rheol Sefydlog 22, fel y'i diwygiwyd

RHEOL SEFYDLOG 22 – Safonau Ymddygiad

Aelodaeth

- 22.3** Rhaid i'r Llywydd beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor cyfrifol, ond mae gan y Llywydd hawl i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw ystyriaethau y mae'r Llywydd yn credu eu bod yn briodol.
- 22.4** Ni chaniateir i Reol Sefydlog 17.48 fod yn gymwys i'r pwyllgor cyfrifol pan fo'n ystyried materion o dan Reol Sefydlog 22.2(i).
- 22.4A** Rhaid i'r Cynulliad ethol eilydd o'r un grŵp gwleidyddol ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 22.5.
- 22.5** Os bydd aelod o'r pwyllgor cyfrifol yn destun cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2(i) neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn o'r fath, ni chaiff gymryd rhan yn ystyriaeth y pwyllgor cyfrifol ar y gŵyn. O dan amgylchiadau o'r fath, neu os bydd aelod o'r pwyllgor yn methu â gweithredu fel arall, caiff yr eilydd a etholwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.4A gymryd lle'r aelod hwnnw at ddiben ystyried cwyn. Caiff yr eilydd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried y gŵyn fel pe bai'n aelod o'r Pwyllgor.